

Y Dull Trochi Iaith

Yn y cylchoedd defnyddir y dull trochi iaith i gyflwyno'r Gymraeg i blant sydd yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

Beth yw'r dull trochi iaith?

- ffordd arbennig o gyflwyno iaith newydd ydy'r dull trochi iaith.
- mae'n cyfeirio at y ffaith bod y plant yn derbyn eu haddysg neu eu gofal mewn iaith sydd yn wahanol i iaith eu cartref.
- y Gymraeg yn unig sy'n cael ei ddefnyddio yn y lleoliad gydag ac o amgylch y plant.
- mae'r plant yn cael eu hamgylchynu gan yr iaith drochi yn ystod eu hamser yn y lleoliad.
- mae holl weithgareddau'r ddarpariaeth yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig.

Sut mae'r plant yn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg?

- wrth ddefnyddio'r dull trochi iaith, mae'r plant yn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg fel rhan naturiol o weithgareddau eraill y lleoliad.
- mae'r plant yn **caffael** yn y Gymraeg wrth chwarae a rhyngweithio gydag oedolion a phlant eraill yn y lleoliad.
- mae'r plant yn datblygu eu sgiliau iaith drwy gwricwlwm cyfannol sy'n cynnwys cyfleoedd ar gyfer chwarae rhydd a strwythuredig ar y cyd gyda rhaglen iaith benodol.
- mae'r plant yn dysgu'r iaith drochi mewn ffordd sydd yn debyg i'r ffordd maent yn dysgu iaith y cartref ... wrth iddynt glywed a defnyddio'r Gymraeg yn y profiadau maent yn eu cael yn y lleoliad.

Beth ydy rôl yr oedolyn yn y dull trochi iaith?

- dangos arfer dda o ddefnyddio'r iaith drochi.
- siarad Cymraeg drwy'r amser gyda'r plant yn y lleoliad.
- siarad Cymraeg drwy'r amser gyda'r staff eraill yn y lleoliad.
- defnyddio brawddegau llawn wrth siarad gyda staff a phlant.
- sicrhau bod eu hynganiad yn glir ac yn gywir ar bob adeg.
- ail-adrodd geirfa a brawddegau yn gyson.
- cynorthwyo'r plant i ddeall ystyr y geiriau a'r brawddegau rydym yn eu defnyddio drwy ystumio a defnyddio propiau priodol.
- parchu hawl y plentyn i ddefnyddio ei dewis iaith.

PWYSIG: Ni ddylai'r staff gyfieithu i unrhyw iaith arall wrth weithio gyda'r plant yn y lleoliad. Ni ddylai'r staff defnyddio'r dull 'brechdan' (Cymraeg-Saesneg-Cymraeg) wrth weithio yn y lleoliad.

Language Immersion

In Mudiad Meithrin's cylchoedd, we use the language immersion method to introduce Welsh to children from non Welsh speaking homes.

What is language immersion?

- language immersion refers to the way in which we introduce the new language.
- it refers to those children who receive their education or care in a language which is different from their home language.
- only Welsh is used with and around the children in the setting.
- the children are surrounded by the immersion language during their time at the setting.
- all of the activities at the setting are carried out only through the medium of Welsh.

How do children develop their Welsh language skills?

- by using the language immersion method, the children develop their Welsh language skills as a natural aspect of the other activities at the setting.
- the children **acquire** Welsh language skills as they play and interact with adults and the other children at the setting.
- the children develop their language skills through a holistic curriculum which includes opportunities for free and structured play alongside a specific structured language programme.
- the children learn the immersion language in a similar way to their home language ... as they hear and use Welsh as part of the experiences that they have at the setting.

What is the role of the adult in Welsh language immersion?

- show good practice of using the immersion language.
- speak Welsh at all times with the children at the setting.
- speak Welsh at all times with the other staff at the setting.
- use full sentences when speaking to the staff and the children.
- make sure that their pronunciation is clear and accurate at all times.
- repeat words and phrases consistently.
- help the children to understand the meaning of the words and phrases used through mime and use of appropriate props.
- respect the child's right to respond in the language of their choice.

NOTE: Staff should not translate what they have said into another language whilst working with the children at the setting. Staff should not use the 'sandwich' (Welsh-English-Welsh) method whilst working at the setting.